Cyngor Dinas Casnewydd

Hysbysiad Preifatrwydd

Gwasanaeth a manylion cyswllt	
Gwasanaeth:	Cyfraith a Safonau
Manylion cyswllt:	01633 656656
Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:	Gwasanaeth Cofrestru Etholiadol

Ffynhonnell gwybodaeth a chategorïau o wybodaeth yn cael eu prosesu

Mae'r adran hon ond yn berthnasol os yw data personol wedi'i gael gan ffynhonnell ond chi eich hun (gwrthrych y data).

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi cael y categorïau canlynol o'ch data personol:

Caniateir i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol weld cofnodion y Cyngor er mwyn helpu i gynnal y gofrestr etholwyr (Adran 9A Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983)

Rydym wedi cael eich gwybodaeth gan:

Rhannwyd y wybodaeth hon â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gan Gyngor Dinas Casnewydd ac mae'n cynnwys defnyddio'r rhestr eiddo ar gyfer manylion cyfeiriadau a chofnodion y Dreth Gyngor i gadarnhau enwau a chyfeiriadau etholwyr

Diben a sail gyfreithiol dros ddefnyddio eich gwybodaeth

Yma, byddwn yn egluro ein rheswm dros gasglu eich data personol a'r rhesymau dros brosesu.

Ein sail gyfreithiol dros brosesu eich gwybodaeth:

Mae rhwymedigaeth statudol arnom i brosesu eich data personol

Mwy o fanylion am ein sail gyfreithiol dros ddefnyddio eich gwybodaeth a diben prosesu:

Mae gofyniad statudol i brosesu eich gwybodaeth, fel y manylir isod:
Mae Adran 9 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gynnal cofrestr etholwyr ac mae Rheoliad 93 o'r Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl yn ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi ail gofrestr 'mynediad agored'. Mae Rheoliad 26 o'r Rheoliadau yn caniatáu i'r SCE brosesu rhifau Yswiriant Gwladol a dyddiadau geni.

Mae'r Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl (Adran 23) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Canlyniadau weinyddu etholiadau seneddol.

Mae prosesu eich data personol yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol y SCE a'r SC. Y sail gyfreithlon ar gyfer y prosesu yw cyflawni tasg gyhoeddus a bod er budd y cyhoedd, fel y darperir ar ei gyfer gan gyfraith etholiadol.
Diben prosesu:

Bydd y SCE yn prosesu eich data er mwyn cyhoeddi cofrestr etholiadol lawn sydd â mynediad agored.
Bydd y SC yn defnyddio eich data er mwyn rheoli etholiadau.
Cewch ddewis peidio â bod ar y gofrestr mynediad agored ar unrhyw adeg. Gall unrhyw berson brynu'r gofrestr hon a'i defnyddio at unrhyw ddiben (e.e. gan elusennau a busnesau ar gyfer marchnata). Dim ond yn fy swyddfa y mae'r gofrestr lawn ar gael i'w harchwilio (gall pobl wneud nodiadau ysgrifenedig ohoni), a chyfyngir ar ba ddefnydd y gwneir o'r wybodaeth honno gan y gyfraith. I gael esboniad o'r cofrestri llawn a'r rhai a olygwyd, gweler Atodiad 1.

Yr hawl i dynnu caniatâd yn ôl

Os ydym yn dibynnu ar eich caniatâd i brosesu eich data, mae gennych hawl i dynnu eich caniatâd i'r prosesu hwn yn ôl ar unrhyw adeg. I wneud hyn, cysylltwch â'r person a enwir ar ben yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

(Dim ond yn berthnasol i brosesu ar sail caniatâd)

Rhaid i chi roi'r wybodaeth y mae ei hangen arnom i ddarparu'r gwasanaeth i ni, os oes naill ai:

a) Ymrwymiad contract i wneud felly, neu
b) Ymrwymiad statudol i wneud felly.

(Dim ond yn berthnasol os mai cyflawni contract neu ddyletswydd/tasg Cyhoeddus yw'r sail gyfreithiol dros broses).

Mae canlyniadau peidio â rhoi gwybodaeth fel a ganlyn:

Mae rhwymedigaeth statudol arnoch i ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani isod:
Mae adran 9 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gynnal cofrestr etholwyr, tra bod Adran 10 yn ei gwneud yn ofynnol i'r SCE wirio eiddo bob blwyddyn.
Mae Rheoliad 23 o'r Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl yn ei gwneud yn drosedd i beidio â chydymffurfio â chais am wybodaeth gan y SCE – uchafswm o £1,000 o ddirwy, neu £5,000 neu chwe mis o garchar os darperir gwybodaeth anwir.

Data Categori Arbennig

(Dim ond yn berthnasol os mai data categori arbennig sy'n cael ei brosesu)

Weithiau rydym yn prosesu categori arbennig a ddiogelir yn fwy dan y Ddeddf Diogelu Data. Y rheswm am hyn yw y ystyrir bod data categori arbennig yn fwy sensitif. Os ydym yn prosesu eich data categori yna mae angen i ni sefydlu sail gyfreithiol bellach dros brosesu, ac rydym wedi tynnu sylw at hyn isod:

Choose a further lawful basis.

Penderfynu awtomataidd/proffilio

(Dim ond yn berthnasol os ydym yn gwneud penderfyniad awtomataidd ar wrthrych data)

Weithiau rydym yn defnyddio cyfrifiaduron neu dechnoleg i'n helpu ni i wneud penderfyniadau ar y gwasanaeth rydym yn eu cynnig i chi. Isod ceir manylion am y systemau penderfynu neu broffilio rydym wedi'u defnyddio, a sut daethpwyd i'r penderfyniad:

Click here to enter text.

Pwy fydd yn gweld eich gwybodaeth bersonol?

Cyngor Dinas Casnewydd yw'r rheolydd data a'r Swyddog Diogelu Data yw:

Rheolwr y Gwasanaethau Digidol
E-bost: information.management@newport.gov.uk
Ffôn: 01633 656656

Gallai rheolwyr data eraill hefyd fod yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Cysylltwch â'r gwasanaeth am fwy o wybodaeth.

Prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth bersonol yw:

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw gan y SCE a'i defnyddio gan ei staff i reoli cofrestru etholiadol - bydd yn cael ei rhannu gyda'r Swyddog Canlyniadau i gynnal etholiadau.

Gallen ni rannu eich gwybodaeth o fewn Cyngor Dinas Casnewydd:

Mae gan Gyngor Casnewydd hawl i gael copi o'r gofrestr etholiadol (Rheoliad 107 o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001).
Mae gan gynghorwyr hawl i'r gofrestr ar gyfer eu hadran etholiadol (Rheoliad 103 o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001).

Gallen ni rannu eich gwybodaeth gyda sefydliadau allanol eraill:

Mae hawl statudol gan y canlynol i gael copi o'r gofrestr:-
Mae gan Aelodau Seneddol hawl i'r gofrestr ar gyfer eu hetholaeth (Rheoliad 103 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001).
Mae gan Aelodau Senedd Cymru hawl i'r gofrestr ar gyfer eu hetholaeth neu ranbarth (Rheoliad 103 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001).
Mae gan ymgeiswyr mewn etholiadau hawl i gael copi o'r gofrestr ar gyfer y sedd y maent yn ymgeisio amdani (Rheoliad 108 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001).
Mae gan swyddfeydd etholaethol gwleidyddol lleol hawl i gael copi o'r gofrestr sy'n cwmpasu eu hetholaeth (Rheoliad 105 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001).
Mae gan gyngor cymuned neu gyngor tref hawl i gael copi o'r gofrestr sy'n cwmpasu eu hardal (Rheoliad 107 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001).
Mae gan blaid wleidyddol gofrestredig neu drydydd parti cydnabyddedig (a chyfranogwyr a ganiateir mewn refferenda) hawl i gael copi o'r gofrestr lawn (Rheoliad 109 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001).
Mae gan yr heddlu hawl i gael copi o'r gofrestr lawn (Rheoliad 109 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001).
Mae gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru hawl i gael copi o'r gofrestr lawn (Rheoliad 97 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001).
Mae gan y Comisiwn Etholiadol hawl i gael copi o'r gofrestr lawn (Rheoliad 100 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001).
Mae gan y Comisiwn Ffiniau hawl i gael copi o'r gofrestr lawn (Rheoliad 101 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001).
Mae gan Asiantaethau Gwirio Credyd hawl i gael copi o'r gofrestr lawn er mwyn ymchwilio statws credyd wrth dalu'r ffi statudol. (Rheoliadau 113 a 114 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001).
Gall adrannau llywodraethol hefyd brynu'r gofrestr lawn (Rheoliadau 113 a 114 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001).
Mae gan Wasanaeth y Llysoedd hawl i gael y gofrestr er mwyn galw preswylwyr am Wasanaeth Rheithgor (Deddf Rheithgorau)
Rhaid i'r gofrestr wedi'i golygu gael ei gwerthu i unrhyw un sy'n gofyn am gopi (Rheoliad 110 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001).
Ceisiadau mynediad at ddibenion atal troseddau – gellir darparu gwybodaeth bersonol os yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn fodlon bod y rheolau at ddibenion atal a darganfod troseddau, neu ddal neu erlyn troseddwyr wedi'u bodloni.

Weithiau rydym yn defnyddio help arbenigol sefydliadau/cwmnïau eraill i brosesu eich data ar ein rhan. 'Proseswyr data' yw'r cwmnïau hyn. Wrth brosesu eich data, rydym yn defnyddio'r proseswyr data canlynol:

Bydd y Swyddog Canlyniadau yn rhannu eich enw, eich cyfeiriad a'ch rhif etholwr gyda chyflenwyr argraffu er mwyn cynhyrchu cardiau pleidleisio a phapurau sy'n ymwneud â'r bleidlais bost. Mae contract a chytundeb rhannu data i ddiogelu data personol ar waith.
Bydd y SCE yn rhannu eich enw, eich cyfeiriad a'ch cenedligrwydd ac yn nodi a ydych yn 76+ gyda chyflenwyr argraffu er mwyn cynhyrchu ffurflenni canfasio blynyddol. Mae contract a chytundeb rhannu data i ddiogelu data personol ar waith.

Bydd Swyddfa'r Gofrestr Etholiadol y rhannu eich enw, cyfeiriad, dyddiad geni, rhif Yswiriant Gwladol a'ch cyfeiriad blaenorol gyda Swyddfa'r Cabinet a'r Adran Gwaith a Phensiynau at ddiben wneud gwiriadau hunaniaeth ar gyfer ymgeiswyr cofrestru newydd. Mae cytundeb rhannu data i ddiogelu data personol ar waith.
Bydd Swyddfa'r Gofrestr Etholiadol yn rhannu'r gofrestr etholiadol gyda Swyddfa'r Cabinet fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol (Rhan 6 Deddf Archwilio ac Atebolrwydd Lleol 2014)

Manylion unrhyw brosesau o drosglwyddo eich gwybodaeth bersonol yn rhyngwladol:
(os yn berthnasol)

Click here to enter text.

Ceisiadau am wybodaeth

Gallai'r holl wybodaeth a gofnodwyd y mae Cyngor Dinas Casnewydd yn ei chadw fod yn destun ceisiadau yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a'r Ddeddf Diogelu Data.

Os hoffech chi wneud cais am gopi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch, gallwch wneud cais cael copi o'n **Ffurflen Gais Gwybodaeth Bersonol** yma:

Information.management@newport.gov.uk

Os hoffech chi gyflwyno Cais Rhyddid Gwybodaeth/Gwybodaeth Amgylcheddol, gallwch gyflwyno eich cais i ni yma:

http://www.newport.gov.uk/cy/Council-Democracy/Transparency/Freedom-of-information.aspx

Eich hawliau

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i chi. Nodwch nad yw pob un o'r hawliau hyn yn ddiamod a bydd angen i ni ystyried eich cais wedi'i dderbyn. Mae gennych yr hawl i wneud cais:

a) i'ch data gael ei gywiro os yw'n anghywir neu'n anghyflawn;
b) i'ch data gael ei ddileu;
c) i gyfyngu ar eich data'n cael ei brosesu;
d) i arfer eich hawl i drosglwyddo data;
e) i wrthwynebu i brosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol, proffilio a phenderfynu awtomataidd.

Ym mhob achos, cyflwynwch eich cais i:

information.management@newport.gov.uk

Gweithdrefn Gwyno
Os nad ydych yn hapus gyda'r ffordd mae Cyngor Dinas Casnewydd yn defnyddio eich data, mae gennych yr hawl i gwyno i ni. Os hoffech chi gwyno, cysylltwch â ni trwy anfon e-bost aton ni yn;
Information.management@newport.gov.uk

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad eich cwyn, gallwch wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Yn gyffredinol, ni alla y Comisiynydd wneud penderfyniad oni bai eich bod wedi dihysbyddu gweithdrefn gwyno'r Cyngor. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,
Wycliffe House, Water Lane,
Wilmslow,
Sir Gaeelleon
SK9 5AF.

Am faint y byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth?
Manylion y cyfnod cadw
Caiff pa mor hir y mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cadw gwybodaeth ei bennu drwy ofynion statudol neu arfer gorau. Cofrestrau Etholiadol - 15 mlynedd er mwyn gwirio cymhwyster etholwyr tramor i gofrestru. Nodwyr Pleidlais Absennol - 5 mlynedd, wedyn caiff eu hadnewyddu neu eu dileu a chaiff yr hawl i bleidleisio drwy'r post / dirprwy ei dileu. Ffurflenni Cofrestru a thystiolaeth o oedran, cenedligrwydd (gan gynnwys HEF ac ITR) am oes y gofrestr honno (1 Flwyddyn) Caiff dogfennau etholiadau eu storio'n ddiogel am 1 flwyddyn. Caiff ffurflenni cyfeiriad cartref ymgeiswyr mewn etholiad Seneddol eu dinistrio ar yr 21ain diwrnod ar ôl i'r aelod gael ei ddychwelyd. Caiff treuliau etholiad yr ymgeisydd eu cadw'n ddiogel am ddwy flynedd (heblaw am dreuliau ymgeiswyr Ewropeaidd a thref/cymuned a storir am 1 flwyddyn) Manylion o drosglwyddiadau i archifau sirol; mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn derbyn y gofrestr gyfan.

Atodiad 1
Mae dwy gofrestr. Pam?

Gan ddefnyddio gwybodaeth a dderbynnir gan y cyhoedd, mae swyddogion cofrestru yn cadw dwy gofrestr - y gofrestr etholiadol a'r gofrestr agored (a adwaenir hefyd fel y gofrestr a olygwyd)
Mae'r gofrestr etholiadol yn rhestru enwau a chyfeiriadau pawb sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau cyhoeddus. Defnyddir y gofrestr at ddibenion etholiadol, fel sicrhau mai dim ond pobl gymwys a all bleidleisio. Fe'i defnyddir hefyd at ddibenion cyfyngedig eraill a nodir drwy gyfraith, megis:

- canfod troseddau (e.e. twyll)
- galw pobl i wneud gwasanaeth rheithgor
- gwirio ceisiadau am gredyd

Mae'r gofrestr agored yn ddetholiad o'r gofrestr etholiadol, ond nid yw'n cael ei defnyddio ar gyfer etholiadau. Gall unrhyw berson, cwmni neu sefydliad ei phrynu. Er enghraifft, fe'i defnyddir gan fusnesau ac elusennau i gadarnhau enwau a chyfeiriadau. Caiff eich enw a'ch cyfeiriad eu cynnwys ar y gofrestr agored oni bai eich bod yn gofyn iddynt gael eu dileu. Ni fydd dileu eich manylion o'r gofrestr agored yn effeithio ar eich hawl i bleidleisio